Comisiynydd
**Cenedlaethau'r**
**Dyfodol**
Cymru

**Future**
**Generations**
Commissioner
for Wales

cenedlaethaurdyfodol.cymru futuregenerations.wales @futuregencymru

# Adborth ar Hunan-Fyfyrio i Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont ar Ogwr

# Cynnydd tuag at Amcanion Llesiant: offeryn hunan-fyfyrio 2017-18

**Gorffennaf 2019**

# Canfyddiadau sector-benodol:
# *llywodraeth leol*

# Ar draws llywodraeth leol

## *Capasiti mewn Llywodraeth Leol*

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu digon o adnoddau ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth yn nhermau cynorthwyo datblygu arweinyddiaeth ar gyfer newid trawsffurfiol na darparu'r seilwaith sy'n ofynnol o dan y Ddeddf – naill ai yn y sectorau a noddir gan Lywodraeth Cymru nac ar gyfer cyflawni'r ddeddfwriaeth o fewn Llywodraeth Cymru ei hunan. Fel y cyfryw:

- Mae'r pwysau ariannol sy'n wynebu Awdurdodau Lleol yn cyfyngu ar y gallu i arwain newid hirdymor. Nid yw hyn o reidrwydd yn ymwneud ag angen am wasanaethau newydd neu fwy o bobl, ond yn hytrach â gallu gwasanaethau sydd wedi cael eu cwtogi a meysydd corfforaethol Awdurdodau Lleol i arwain newid, i feddwl yn arloesol ac ymroi i gydweithio ac integreiddio gydag eraill – tra hefyd yn rheoli swyddi dyddiol sydd o dan bwysau cynyddol.
- Yn gyffredinol, yr heriau a adroddwyd am weithredu'r Ddeddf oedd integreiddio prosesau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, yn arbennig y rhybudd byr am setliadau ariannol a dyraniadau cyllideb un flwyddyn. Mae hyn yn arwain at benderfyniadau tymor byr ar gyfer gwneud yr arbedion sy'n ofynnol ac yn ennyn ofn arloesedd, methiant a risg. Tra bo hyn yn anochel yn cyflwyno rhai heriau i Awdurdodau Lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd i weithredu cynllunio hirdymor, dylid hefyd gydnabod bod cyllid ar y cyfan yn gymharol statig, a gellir ymgymryd â chynllunio hirdymor ar y sail hwnnw os ydyw Awdurdodau Lleol mewn gwirionedd yn croesawu'r Ddeddf fel rhan o'u busnes craidd, fel yr ydym yn ei hyrwyddo yn y cyngor hwn.
- Mae yna nifer o swyddogion llywodraeth leol sy'n barod i sbarduno dulliau newydd o weithio, ond ar y cyfan mae yna heriau o safbwynt gallu swyddogion i arwain a sbarduno newid trawsffurfiol. Mae gweithredu'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gael arweinyddiaeth mewn sefydliad a fedr hawlio newid a chreu'r diwylliant sy'n neilltuo amser ac adnoddau i roi cynnig ar bethau gwahanol, herio'r 'status quo' a chyfleu dysg. Rydyn ni'n awyddus i weld y newid hwn mewn agwedd a gweithred – dylid adrodd yn glir a thryloyw yr hyn sy'n wahanol i'r hyn yr oedd o'r blaen.

# Ar draws llywodraeth leol

## *Capasiti mewn Llywodraeth Leol (parhad)*

- Gall swyddogion Awdurdodau Lleol sy'n llunio newid yn eu sefydliad deimlo'n rhwystredig ac ynysig. Rydyn ni'n annog ymuno â rhwydweithiau megis Rhwydwaith Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru, rhwydweithiau CLILC ac eraill, a ffurfio agendâu sy'n dod yn setiau dysgu i helpu i rannu'n ddiffuant heriau ac arfer arloesol, yn arbennig ar adegau o galedi lle mae rhai'n dod i ben â'r her yn well nag eraill.

- Nid oes digon o ffocws o fewn Llywodraeth Leol ar drawsffurfio dulliau o weithio yn y saith maes corfforaethol o newid. Er bod enghreifftiau da o rai sefydliadau'n ceisio diwygio eu hymagwedd tuag at gaffael, megis Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Caerdydd a Chyngor Conwy, a nifer o enghreifftiau o rai'n ceisio lleihau eu hallyriadau carbon yn gyflymach drwy ddefnyddio'u hasedau, nid yw Awdurdodau Lleol wedi cyfeirio'n ddigonol at y modd y maent yn ymgymryd â'u gwaith cynllunio, rheoli risg eu gweithlu a chynllunio ariannol yn unol â'r pum dull o weithio a'u dyletswyddau statudol i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion llesiant. Dywedodd y Comisiynydd yn ei 'Llesiant yng Nghymru; y siwrnai hyd yn hyn' bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus gychwyn adrodd ar y modd y mae meysydd corfforaethol o newid yn addasu eu dulliau o weithio a rydyn ni'n monitro eich cynnydd ar hyn.

- Cynllunio ariannol a rheoli risg yw dau o'r saith maes corfforaethol sy'n rhaid iddynt wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n rhan hanfodol o'u gweithgareddau, ac mae'r Comisiynydd yn ddiweddar wedi cytuno ar ddiffiniad o wariant ataliol gyda Llywodraeth Cymru. Dylai Awdurdodau Lleol hefyd fabwysiadu hyn a'i ddefnyddio i drwytho penderfyniadau ar wariant.

# Ar draws llywodraeth leol (parhad)

***Mae cynnydd yn cael ei wneud ar gyflawni amcanion llesiant mewn rhai meysydd, ond mae yna amrywiaeth yn y modd y dangosir sut mae gosod amcanion a gwneud penderfyniadau'n cymhwyso pob un o'r pum dull o weithio.***

- Mae angen i Awdurdodau Lleol ddangos yn well sut y maent wedi cymhwyso'r pum dull o weithio a dyletswyddau i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion yn eu penderfyniadau. Mae'r Comisiynydd wedi darparu adnoddau i helpu gyda hyn – megis Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn y blynyddoedd sy'n dod bydd yn ystyried sut yr ydych wedi dangos yn glir bod yr adnoddau hyn wedi cael eu defnyddio i weithio drwy gynigion, penderfyniadau a chraffu.

- Mae'r Ddeddf wedi dechrau arwain at gynllunio tymor hwy ac arloesedd. Ond, wrth gyflawni amcanion, dylai Llywodraeth Leol ddangos yn fwy clir sut y maent wedi ystyried tueddiadau hwy a senarios. Mae gan y mwyafrif, er enghraifft, amcanion ar sgiliau ond prin yw'r rhai sydd wedi dangos sut y maent (gyda neu heb bartn eriaid eraill) wedi ystyried pa sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol tu hwnt i gynllunio ar gyfer bylchau mewn sgiliau presennol. Heblaw am ddefnyddio asesiadau o lesiant, a ystyriodd y tueddiadau hirdymor a data ar gyfer pob maes nid yw ystyried tueddiadau hirdymor eto wedi eu hymgorffori yn y prosesau penderfynu. Mae llawer iawn o hyn, ymddengys, oherwydd capasiti ac arbenigedd. Dylai'r Llywodraeth, Awdurdodau Lleoll a'r GLILC ddarganfod ffyrdd o adeiladu capasiti yn y maes. Mae rhai Awdurdodau Lleol wedi defnyddio cyllid rhanbarthol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i adeiladu capasiti ar gyfer meddwl am y dyfodol (megis yng Ngwent), ond dylai'r Llywodraeth sefydlu adnodd wedi ei dargedu at gyrff cyhoeddus ungiol yn benodol at y diben hwn.

- Tra bo cydweithio wedi cynyddu drwy weithio ar lefel Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, dylai Awdurdodau Lleol chwilio am fwy o gyfleoedd i gynyddu cysylltedd rhwng eu hamcanion hwy ac amcanion eraill. Mae angen i Awdurdodau Lleol chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydweithredu tu hwnt i'r bobl arferol. Gall cyrff cenedlaethol nad oes ganddynt rôl yng ngwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er enghraifft, yn ogystal ag ystod ehangach o gyrff y trydydd sector, colegau, prifysgolion a chwmnïau'r sector preifat chwarae eu rhan mewn cyd-gyflawni amcanion llesiant Dylai Awdurdodau Lleol ymgymryd ag asesiad o'r partneriaid posibl a fedrai eu helpu i gyflawni amcanion llesiant gyda'r bwriad o ddarganfod capasiti i swyddogion adnabod a datblygu'r fath bartneriaethau.

# Ar draws llywodraeth leol (parhad)

***Mae cynnydd yn cael ei wneud ar gyflawni amcanion llesiant mewn rhai meysydd, ond mae yna amrywiaeth yn y modd y dangosir sut mae gosod amcanion a phenderfynu'n cymhwyso pob un o'r pum dull o weithio (parhad)***

- Mae yna enghreifftiau clyfar o ble mae'r Ddeddf yn sbarduno arloesedd a dulliau gwahanol o wneud pethau. Rydyn ni'n casglu'r rhain at ei gilydd i mewn i adnoddau'n gwefan, yn cynnwys llawer sy'n ymddangos yn adnoddau Y Gallu i Greu y Comisiynydd. Ond, dylai arloesedd gael ei osod o fewn cyd-destun gweledigaeth hirdymor ddealladwy ar gyfer y sefydliad, yn hytrach na bodoli mewn seilos, ac enghreifftiau ad hoc. Er enghraifft, wrth feddwl yn arloesol am drafnidiaeth, gallem ystyried trydan, hydrogen a cherbydau heb yrwyr fel y pethau arloesol, a byddai hyn yn ein symud ymlaen oddi wrth 'fusnes-fel-arfer'. Fodd bynnag, mae arloesedd gwirioneddol yn ystyried sut y gellir datrys problemau ar draws y system, gan sbarduno manteision niferus. Er y bydd angen seilwaith cerbydau trydan, mae manteision tymor hwy ychwanegol i iechyd drwy leihau carbon a thlodi yn fwy tebygol o gael eu hennill drwy gyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus gyflymach, fwy cyfleus, rhatach, carbon isel a seilwaith a gynlluniwyd ar gyfer cerddwyr a beicwyr – nid modurwyr. Mae'r Comisiynydd yn datblygu adnoddau gan ddefnyddio offeryn y dyfodol 'Three Horizons' i helpu pob corff cyhoeddus i feddwl yn fwy arloesol am eu gweledigaeth hirdymor.

- Ni fedrwn weld yn glir ddigonoldeb y cysylltiad â chyrff cyhoeddus eraill, sy'n hollbwysig ar gyfer cyflawni amcanion llesiant a osodwyd gan Awdurdodau Lleol. Mewn rhai achosion mae yna ddiffyg eglurhad o'r modd y mae blaenoriaethau a darpariaeth ymhlith seilwaith dinas-ranbarth neu fargen dwf, byrddau partneriaethau rhanbarthol ac eraill yn cael eu halinio â chyflawni amcanion llesiant awdurdod lleol. Er enghraifft, mae adrodd mewn llawer achos yn ddiffygiol mewn eglurhad o'r modd y mae amcanion sy'n berthnasol i sgiliau/cyflogaeth yn cael eu cyflawni gyda Bargeinion Twf, Dinas-Ranbarthau, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ac ysgolion, colegau neu unrhyw Sefydliad Addysg Uwch o fewn yr ardal.

- Gallwn weld arloesedd mewn gwella llesiant cymdeithasol, yn arbennig drwy nifer o enghreifftiau sy'n berthnasol i weithrediad y Ddeddf. Er enghraifft, cydlynwyr llesiant mewn syrjeris meddygon teulu; mentrau presgreibio cymdeithasol a gweithgareddau mewn ysgolion i wella iechyd. Ond collir cyfleoedd i fynd ati i gyflawni'r amcanion hyn drwy ddefnyddio lens llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Er enghraifft, wrth ddylunio rhaglenni presgreibio cymdeithasol, ni fedrwn weld tystiolaeth bod Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd yn ystyried mentrau megis 'presgreibio gwres yn y cartref' sydd nid yn unig yn gwella llesiant cymdeithasol yn nhermau iechyd a thlodi tanwydd ond yn cyfrannu tuag at lesiant yr amgylchedd drwy leihau allyriadau carbon hefyd.

# Ar draws llywodraeth leol (parhad)

***Mae cynnydd yn cael ei wneud ar gyflawni amcanion llesiant mewn rhai meysydd, ond mae yna amrywiaeth yn y modd y dangosir sut mae gosod amcanion a gwneud penderfyniadau'n cymwyso pob un o'r pum dull o weithio.***

- Mae angen i Awdurdodau Lleol ddangos eu bod yn gweithredu ar draws holl feysydd eu sefydliad - yn arbennig mewn meysydd o newid hollbwysig, megis datgarboneiddio. Er gwaethaf rhai mentrau ardderchog, nid yw Awdurdodau Lleol yn dangos yn gyson eu bod yn gweithredu ar draws eu holl feysydd busnes a thrwy gydol eu holl amcanion i ystyried yr heriau hyn sy'n wynebu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd angen i hyn wella'n sylweddol ac mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gyflymu eu cynnydd wrth gyflawni eu hamcanion llesiant. Wrth roi cyngor ar eich amcanion llesiant, rydyn ni wedi talu sylw i'r heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a'r camau sy'n rhaid i ni eu cymryd gyda'n gilydd i symud yn fwy cyflym. Er enghraifft: ein targedau i ddatgarboneiddio a lleihau allyriadau yng Nghymru; y dirywiad mewn bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol; y newidiadau i'n swyddi a sgiliau sy'n gysylltiedig â demograffeg ac awtomeiddio; ein targedau i gynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad Cymraeg a mwy. Yn eu hadrodd y flwyddyn hon, rydyn ni'n awyddus i weld sut mae Llywodraeth Leol yn symud o 'wneud newidiadau syml' tuag at 'arwain y ffordd' wrth gyfrannu i'n nodau llesiant cenedlaethol.

- Mae rhai awdurdodau lleol yn colli cyfleoedd ar draws eu holl sefydliad i ymgysylltu â meysydd busnes a pholisi i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion. Er enghraifft, er gwaethaf y ffaith fod dros 100 o amcanion llesiant wedi eu gosod ar feysydd sy'n ymwneud â sgiliau, prin yw'r Awdurdodau Lleol a gyfeiriodd o gwbl at y modd y maent yn gweithio gydag ysgolion ar ddealltwriaeth o'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf. Mae enghreifftiau fel y rhain yn gofyn am weithredu gan Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru wrth ddisgrifio'n fanwl ofynion y Ddeddf i ddarparwyr addysg a dangos sut y maent yn cael eu hymgorffori wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

- Mae llawer o Awdurdodau Lleol yn colli cyfleoedd i gysylltu eu hamcanion a chreu darlun mwy dealladwy ar draws eu sefydliad am y modd y maent yn cyflawni eu dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol, a chyfrannu i'r nodau i eithaf eu gallu. Er enghraifft, mae llawer o Awdurdodau Lleol wedi gosod amcanion sy'n ymwneud â rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant ochr yn ochr ag amcanion i wella'r amgylchedd naturiol neu sicrhau fod y cartref yn ddiogel, hygyrch a fforddiadwy. O gofio'r effaith a gaiff yr amgylchedd naturiol (ansawdd aer, mynediad i fannau gwyrdd) a thai (gweler gasgliadau WHO er enghraifft) ar iechyd a llesiant, mae yna gyfleoedd i gysylltu amcanion a chamau rhesymol yn fwy effeithiol. Rydyn ni'n disgwyl gweld o leiaf ystyriaeth o hyn yn eich adrodd y flwyddyn hon.

# Ar draws llywodraeth leol (parhad)

***Mae adrodd yn dal i gael ei weld yn heriol o gofio amserlenni a gofynion eraill sy'n wynebu Llywodraeth Leol***

- Mae amseriad y ddeddfwriaeth wedi bod yn broblem i'r mwyafrif o Awdurdodau Lleol. Gwelir yr etholiadau a gynhaliwyd yn fuan ar ôl cyhoeddi amcanion (Mai 2017) a chyhoeddi wedi hynny asesiadau llesiant a chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel anghysonderau o fewn y Ddeddf. Byddem yn annog ailystyriaeth feirniadol reolaidd o amcanion a chamau.

- Ystyrir bod gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn tynnu sylw oddi wrth bethau eraill. Mae awdurdodau lleol wedi dweud wrthym eu bod yn amharu ar eu dymuniad i weithredu yn yr hirdymor wrth ofyn am adroddiad blynyddol sy'n dangos gwelliant mesuradwy bob blwyddyn. Mae hyn yn dal i annog yr ymddygiadau anghywir ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth newid eu hymagwedd. Ystyrir Mesur Llywodraeth Leol fel cyfle i egluro'r sefyllfa, a byddem yn eich annog i ymddiddori yn y Mesur hwn, gwthio nôl yn erbyn y Llywodraeth, herio'r strwythurau rheoli perfformiad presennol gan ddefnyddio'r Ddeddf fel catalydd ar gyfer newid.

- Mae Awdurdodau Lleol yn parhau i gyfeirio  mewn dull anghyson at amcanion a chamau llesiant fel 'blaenoriaethau', neu 'weithrediadau' neu 'meysydd ar gyfer gwelliant'. Mae'n anodd penderfynu mewn rhai achosion beth yw'r amcanion a'r camau llesiant, sy'n gwneud asesu'r cynnydd yn eu cyflawniad yn anodd. Mae'r Ddeddf a disgwyliadau'r Comisiynydd yn datgan bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus restru eu hamcanion llesiant yn glir, a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni. Rhaid i hyn gynnwys sut mae'r pum dull o weithio a'r nodau llesiant cenedlaethol wedi cael eu defnyddio i drwytho gosod neu adolygu'r amcanion a'r camau.

- Mae rheoli perfformiad ac adrodd yn dal i ddilyn y dull traddodiadol, sy'n ffocysu ar yr hyn sydd wedi ei wneud  ('yr hyn / allbynnau), yn hytrach na'r modd y cafodd ei wneud ('y modd') a'i effaith ('beth felly?'/canlyniadau). Mae rhywfaint o hyn yn cael ei sbarduno gan fesurau perfformiad a osodwyd gan y Llywodraeth y dylid eu hadolygu'n systematig i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag mae gan Awdurdodau Lleol sy'n atebol, hefyd rôl yn y gwaith o ddangos arweinyddiaeth ar hyn, gan ymroi i fesur yr hyn sy'n bwysig, nid yn unig yr hyn y gellir ei gyfrif. Dylai cyrff cyhoeddus fod yn defnyddio data meintiol mwy ystyrlon a chynyddu eu defnydd o ddata ansoddol i ddangos sut y maent yn symud ymlaen tuag at gyflawni eu hamcanion.

# Yr hyn a ddywedasoch wrthym

# Beth wnaethoch ei ddweud wrthym

• Fe wnaethoch nodi tri amcan llesiant yn 2017/18, ac adroddwyd am gynnydd cymedrol yn eu herbyn gan ddisgrifio pob un fel 'Bod yn fwy anturus' ar y gwiriwr siwrneiau.

• Ni newidiodd yr amcanion yn ystod y flwyddyn; fodd bynnag, roeddech yn ymwybodol o'r etholiadau lleol ym mis Mai 2017 ac felly cafodd y Cynllun Corfforaethol ei ddiwygio yn 2018 yn dilyn tystiolaeth o ymarferion ymgynghori yn 2017.

• Dywedir bod y cynnydd yn ôl y disgwyl ar draws pob un o'r tri amcan llesiant. Yn fewnol, caiff y cynnydd hwn ei fonitro bob chwarter drwy'r broses Asesu Perfformiad Corfforaethol, mae hyn, ochr yn ochr â'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol, yn nodi materion a allai beryglu cynnydd.

• Rydych wedi cyflwyno templedi, systemau a hyfforddiant i helpu i weithredu ac ymgorffori'r Ddeddf, gydag Aelod o'r Cabinet yn cael ei benodi'n "Hyrwyddwr" y Ddeddf.

• Fe wnaethoch ddweud eich bod yn fodlon gyda'r cynnydd hyd yma a'ch bod yn cydnabod natur hirdymor llawer o'ch cynlluniau a'ch dyheadau.

:• Fe wnaethoch ddweud bod y newid diweddar i ffiniau'r bwrdd iechyd o PABM i Gwm Taf yn effeithio ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau di-dor yn cael eu darparu i ddinasyddion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd.

• O ran y pum ffordd o weithio, rydych yn credu bod gennych dystiolaeth dda ar draws eich holl amcanion ac ar draws y meysydd o newid corfforaethol.

# Beth wnaethoch ei ddweud wrthym

- At ddibenion yr ymarfer hunanadlewyrchu, rydych wedi tynnu sylw'n benodol at wahanol enghreifftiau o'r pum ffordd o weithio yn naratif yr Adroddiad Blynyddol. Rydych yn credu eich bod wedi ymgorffori ymwneud cadarn ar draws eich amcanion a'ch bod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio yn y gwaith o gyflawni amcan 3 yn y ffordd fwyaf llwyddiannus.

- Rydych yn credu bod y 5 ffordd o weithio, i raddau helaeth, wedi bod yn rhan annatod o'ch sefydliad yn hanesyddol. Er enghraifft, cydweithio i ddarparu gwasanaethau hirdymor integredig sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaeth i ddylanwadu ar gyfeiriad y teithio. Yn y cyswllt hwn, nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi darparu gormod o newid, ond mae'r ymarfer hunanadlewyrchu wedi gwneud eich sefydliad yn fwy ymwybodol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r angen am well adlewyrchu ac adrodd yn ôl ar sut mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu gweithredu. Roedd hyn hefyd yn amlwg yn yr Adroddiad Blynyddol.

- Fe wnaethoch sgorio eich cynnydd tuag at eich amcanion llesiant fel y nodir yn y sleidiau isod:

# Cynnydd tuag at amcanion llesiant: adran 1 o'r offeryn hunan-fyfyrio

| Nodau Llesiant | Cychwyn arni | Gwneud newidiadau syml | Bod yn fwy anturus | Perchnogi eich uchelgais | Arwain y ffordd |
|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| Amcan 1<br>Cefnogi economi lwyddiannus | | | X | | |
| Amcan 2<br>Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol | | | X | | |
| Amcan 3<br>Defnydd doethach o adnoddau | | | X | | |

# Eich ymagwedd tuag at hunan-fyfyrio

## Eich ymagwedd tuag at hunan-fyfyrio

- Cwblhawyd yr adnodd hunanadlewyrchu gan ddau aelod o'r Tîm Perfformiad Corfforaethol.
- Nid oedd unrhyw arwydd na thystiolaeth o gyfranogiad ychwanegol na phrosesau cymeradwyo.
- Rydym yn croesawu'r ffaith bod yr ymarfer hunanadlewyrchu wedi gwneud eich sefydliad yn fwy ymwybodol o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r angen am well adlewyrchu ac adrodd am sut mae'r pum ffordd o weithio yn cael eu gweithredu ar draws pob maes staff a lefel.

# Asesu cynnydd cyffredinol

# Asesu cynnydd cyffredinol

*Rydym yn gwerthfawrogi bod y sylwadau hyn yn seiliedig ar amcanion a bennwyd yn 2017/18 ac y bydd pethau wedi datblygu ers hynny ar gyfer eich sefydliad. Gobeithiwn y bydd y cyngor hwn yn ddefnyddiol fel crynodeb o'r gwaith rydych yn ei wneud ar hyn o bryd i gyflawni eich amcanion ac ar gyfer adrodd yn y dyfodol.*

• Mae'r amcanion llesiant o natur strategol lefel uchel, ond at ddibenion adrodd mae nifer o is-gategorïau yn eistedd oddi tanddynt. Mae'r naratif yn manylu ar y camau gweithredu a'r gweithgareddau a wnaethoch yn ystod y flwyddyn wrth weithio tuag at yr amcan a'i ddatblygu. Mae'r naratif yn cynnwys ystadegau sy'n dangos newidiadau mewn canlyniadau ac mae mesurau ystadegol a rhifol clir o lwyddiant a chanlyniadau ar gyfer pob un o'r amcanion llesiant. **Byddem yn eich annog i adeiladu ar hyn yn yr adroddiad eleni, gan ddefnyddio astudiaethau achos a thystiolaeth i ddangos effaith drwy gynnwys pobl Pen-y-bont ar Ogwr. Hoffem hefyd weld sut rydych yn defnyddio'r pum ffordd o weithio wrth fynd at bob amcan drwy'r naratif.**

• Rydych yn rhoi rhybudd iechyd sy'n nodi bod rhai o'r dangosyddion yn mesur canlyniadau hirdymor ac nad yw'r rhain yn addas ar gyfer targedau penodol ond eu bod yn cael eu disgrifio fel cynnydd neu ostyngiad. Nododd y Comisiynydd ddisgwyliadau yn 'Llesiant yng Nghymru: y siwrnai hyd yn hyn' a **byddem yn eich annog i ailedrych ar y rhain** – maent yn cynnwys mesur beth sy'n bwysig, nid dim ond yr hyn y gellir ei gyfrif a nodi yn y tymor hwy sut beth fyddai llwyddiant wrth gyflawni amcanion.

• Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol yn awgrymu bod gennych fwy i'w wneud o ran gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i chroesawu yn eich diwylliant. Fodd bynnag, mae'n ymddangos fod mwy o ddealltwriaeth wedi'i nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n nodi'n ddefnyddiol yr amcanion, y nodau, y cyd-destun, y rhaglenni a'r camau i gyflawni'r nod yn ogystal â'ch dangosyddion llwyddiant. Mae hefyd yn cyfeirio at y nodau llesiant y bydd yr amcan yn cyfrannu atynt. **Hoffem i chi adeiladu ar hyn mewn adroddiadau blynyddol a rhoi mwy o fanylion am sut mae eich amcan a'ch camau'n cyfrannu at y nodau llesiant, yn hytrach na dim ond cyfeiriad. Cyn bo hir, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi cyfres o adnoddau a fwriedir fel cyngor ar y camau y dylai cyrff cyhoeddus eu cymryd er mwyn cyfrannu at bob nod. Rydym eisoes wedi cyhoeddi'r 'siwrnai tuag at Gymru gadarn'. Gobeithiwn y bydd yr adnoddau hyn, yn ogystal â Fframweithiau Cenedlaethau'r Dyfodol, yn eich helpu i edrych ar eich cyfraniad at y nodau ymhellach.**

# Asesu cynnydd cyffredinol

• Mae dealltwriaeth a chydnabyddiaeth bod trawsnewid yn cymryd amser. Fel sefydliad cymhleth mawr gyda llawer o bartneriaid a chyflenwyr, mae angen ystyried a chynllunio gofalus. Mae'n ymddangos bod ymrwymiad i ymgorffori'r egwyddor cynaliadwyedd yn gadarn, ond disgrifir ei bod yn cael ei gyrru o'r top i lawr. **Byddem yn annog nad yw'r Ddeddf yn cael ei hystyried fel rhywbeth y mae'n rhaid ei gorfodi 'o'r top i lawr' er mwyn newid diwylliant gwaith. Rydym yn aml yn cwrdd â llawer o hyrwyddwyr rhwystredig y Ddeddf sy'n gweithio ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol feysydd gwasanaeth gyda chyrff cyhoeddus. Efallai, drwy adnabod a chefnogi'r cyflogeion hyn y gallant helpu i weithredu dull 'o'r gwaelod i fyny' o weithio sy'n llesol.** Gal hyn, ochr yn ochr â defnyddio adnoddau'r Comisiynydd, helpu i wella dealltwriaeth o sut gall y Ddeddf gefnogi ffyrdd o weithio i ateb heriau'r presennol a'r dyfodol.

• Rydych wedi nodi integreiddio fel maes yr ydych leiaf hyderus ynddo, ac mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn cefnogi'r farn bod y ffordd o weithio'n gryfach mewn meysydd eraill. Nodwn, fodd bynnag, fod grŵp Atal a Lles wedi'i sefydlu a bod grwpiau â themau yn ffordd y mae rhai Cyrff Cyhoeddus a BGC wedi gwella eu gweithio integredig. **Hoffem weld yn eich adroddiad nesaf sut mae'r grŵp hwn yn sbarduno newid ac yn cefnogi gwelliant yn gysylltiedig â'r dull sefydliadol o ymdrin â'r pum ffordd o weithio.**

• Rydych yn nodi bod y pum ffordd o weithio yn cymryd mwy o amser i'w hymgorffori yn eich tîm caffael oherwydd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r Ddeddf gan gyflenwyr. Dylai'r Ddeddf fod yn fframwaith cyffredinol ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i ni drawsnewid y ffordd y caiff caffael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod y gwariant o £6 biliwn yn sicrhau'r canlyniadau gorau ar draws pob un o bedair colofn llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Caffael yw un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yng nghanllawiau statudol y Ddeddf (SPSF1) a dylai fod yn faes ffocws allweddol i gyrff cyhoeddus wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf. **Rydym wedi argymell bod pob Awdurdod Lleol yn canolbwyntio mwy ar y meysydd newid corfforaethol hyn wrth gymhwyso'r Ddeddf a hoffem weld sut rydych yn symud ymlaen gyda chaffael yn yr adroddiad eleni.**

# Asesiad penodol ar gynnydd

| Amcan | Asesiad penodol ar gynnydd |
|---|---|
| Amcan 1.1: Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo ac ymestyn y llwyddiant hwnnw i bob cymuned yn y Fwrdeistref Sirol. (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Mae'n dda gweld ystyriaeth i sgiliau staff yn y dyfodol (5 mlynedd), ac mae'n gadarnhaol gweld prosiectau fel gwaith cydweithredol ac arloesol LSKiP i fynd i'r afael â'r camgyfateb presennol rhwng sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth. Ond ni allwn weld llawer o dystiolaeth eich bod yn meddwl am y dyfodol hirdymor o ran rhoi sgiliau i bobl ifanc ac oedolion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn rhaglenni cyflogadwyedd. E.e. beth sy'n cael ei wneud i uwchsgilio a helpu trigolion i fod yn barod am y ganolfan ragoriaeth bosib ar gyfer y cyfleuster lled-ddargludydd cyfansawdd. Yn ôl Adroddiad Dyfodol Swyddi 2018, disgwylir i 75 miliwn o swyddi gael eu dadleoli erbyn 2022 mewn 20 o economïau mawr. Ar yr un pryd, gallai hyn hefyd greu 133 miliwn o swyddi newydd, wedi'u sbarduno gan dwf mewn cynhyrchion a gwasanaethau newydd.<br><br>Gyda chreadigrwydd fel sgìl bwysig ar gyfer byd gwaith y dyfodol, dylech hefyd fod yn buddsoddi mewn annog pobl ifanc i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi siwrnai tuag at y nod o ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu, a dylai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi gymryd camau tuag at gyflawni'r amcan hwn.<br><br>Yn adroddiad y flwyddyn nesaf, hoffem weld astudiaethau achos a llais dinasyddion yn cael eu cynrychioli. Er enghraifft, yn nhystiolaeth ategol y Rhaglen Cyflogadwyedd, rydych yn adrodd bod "30 o brentisiaid presennol, ac 17 o gyn-brentisiaid, sydd wedi mynd ymlaen i sicrhau swyddi parhaol yn y cyngor, i gyd wedi dod at ei gilydd i drafod eu profiadau". **Byddai cynnwys y math yma o wybodaeth yn yr adroddiadau eleni yn dangos cyfranogiad** ac yn darparu mwy o ddealltwriaeth o'r rhaglen. Yn yr un modd, er eich bod yn dweud nad yw'r gwersi a ddysgwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol gan eu bod yn ymwneud â rhwystrau mewnol, byddai wedi bod yn fuddiol defnyddio'r broses hunanadlewyrchu i archwilio beth oedd y rhwystrau hyn e.e. pam na chafodd unrhyw brentisiaethau eu defnyddio gan blant sy'n derbyn gofal? Beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn? **Hoffem weld hunanadlewyrchu mwy gonest mewn adroddiadau blynyddol ac mewn adnoddau hunanadlewyrchu yn y dyfodol.** |

| Amcan | Asesiad penodol ar gynnydd |
|---|---|
| Amcan 1.2: i greu amodau ar gyfer twf a menter. (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Rydym wedi’n calonogi eich bod yn ceisio dylanwadu ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a gweithio gyda hi i'ch helpu i gyflawni'r amcan hwn. Gallwn weld eich bod yn gweithio gyda busnesau lleol a hoffem weld tystiolaeth bellach o sut rydych yn cefnogi'r economi gylchol i leihau ac ailddefnyddio ystod ehangach o adnoddau. Byddem yn awgrymu mai un man cychwyn da fyddai trafodaeth ar gyfleoedd a allai fodoli gyda mentrau cymdeithasol lleol. **Hoffem weld tystiolaeth o sut rydych yn gweithio ymhellach gyda'r rhanbarth a gyda busnesau fel hyn yn yr adroddiad eleni.**<br><br>Mae'n gadarnhaol gweld eich bod yn symud ymlaen gyda Chynllun Gwres Caerau y mae'r swyddfa wedi'i rannu fel arfer da. Fodd bynnag, yn unol â’r sylwadau ar amcan 1.3, hoffem weld sut mae hyblygrwydd tai ar gyfer y ffynhonnell wres newydd hon yn cael ei ystyried e.e. datblygiad newydd Sunnyside.<br><br>Mae hefyd yn galonogol gweld bod y CDLl newydd yn gysylltiedig â Chynlluniau Llesiant Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a'ch BCG, hefyd, yn yr adnodd hunanadlewyrchu, eich bod yn cyfeirio at eich Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau i gefnogi hyn. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi mai dim ond 10% o'r bwlch mewn iechyd rhwng cwintelau incwm uchaf ac isaf dynion a menywod gwledydd Ewrop sy'n deillio o wasanaethau iechyd. Mae gwahaniaethau mewn ansawdd amodau byw yn cyfrannu at 29%, gan gynnwys mynediad i fannau gwyrdd. Mae diffyg asiantaeth, ymddiriedaeth, perthyn a chymdogaethau anniogel yn esbonio 19% o'r bwlch. **Byddem yn disgwyl gweld agweddau o'r fath yn cael eu hadlewyrchu yn y CDLl newydd a phenderfyniadau cynllunio unigol.** |

| Amcan | Asesiad penodol ar gynnydd |
|---|---|
| Amcan 1.2: i greu amodau ar gyfer twf a menter. (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Mae canllawiau cenedlaethol, gan gynnwys WelTag a Pholisi Cynllunio Cymru 10, wedi cael eu diweddaru i'ch helpu i ystyried mynediad cyfartal, iechyd, ansawdd aer, hyrwyddo teithio llesol a lleihau allyriadau carbon pan fyddwch yn llunio opsiynau ar gyfer penderfyniadau seilwaith. **Hoffem weld sut rydych yn gweithredu Polisi Cynllunio Cymru 10, sy'n bolisi newydd ac yn ymgorffori gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy eich Cynllun Datblygu Lleol yn y dyfodol a phenderfyniadau cynllunio unigol i sicrhau bod dyluniadau cynllunio a seilwaith mewn cymunedau yn cefnogi'r amcan llesiant hwn (ac eraill).** |

| Amcan | Asesiad penodol ar gynnydd |
|---|---|
| Amcan 1.3: Creu canol trefi llwyddiannus. (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Roedd yn gadarnhaol gweld eich bod yn ymgysylltu â Phrifddinas-ranbarth Caerdydd a Chymdeithasau Tai wrth ddatblygu tai newydd, a'ch bod i ryw raddau wedi ystyried goblygiadau ehangach fel darparu 'parc poced' a sut mae datblygiadau o fudd i'r economi leol. **Edrychwn ymlaen at weld yn adroddiadau'r dyfodol sut caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan eich eiddo gwag, eich strategaethau digartrefedd a'ch CDLl a adolygwyd wrth ganolbwyntio ar adfywio a dadgarboneiddio cartrefi presennol a chartrefi ac adeiladau gwag, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar adeiladu o'r newydd.**<br><br>Mae'r Adolygiad Annibynnol o Dai Fforddiadwy wedi cyflwyno adroddiad yn ddiweddar gyda'u canfyddiadau, gan ddarparu argymhellion ar ddull newydd o ymdrin â thai, a ddylai hefyd ystyried hyblygrwydd i anghenion y dyfodol. Ni allwn weld tystiolaeth ar hyn o bryd eich bod yn ystyried tai sy'n 'addas ar gyfer y dyfodol' e.e. wedi'u diogelu rhag heriau fel tywydd eithafol yn y dyfodol, y gellir eu haddasu ar gyfer gwahanol grwpiau demograffig. Yr hyn a fyddai'n arbennig o berthnasol i Ben-y-bont ar Ogwr fyddai'r gallu i addasu i newidiadau mewn ffynonellau ynni.<br><br>Hoffem weld tystiolaeth o sut rydych yn bwriadu symud tuag at 'fod yn berchen ar eich uchelgais' wrth symud ymlaen tuag at yr amcan hwn. Er enghraifft, dylech fod yn ystyried y dylanwad y gallwch ei gael wrth ddatblygu mentrau yng Nghymru a chadwyn gyflenwi a all ddarparu tai sy'n addas i'r dyfodol (drwy eich amcanion sgiliau a gweithio ar gaffael). Dylai datblygu'r economi werdd drwy wella sgiliau adeiladu, cynnal a chadw a gwella tai greu swyddi, busnesau ym mhob rhan o gadwyni cyflenwi perthnasol a chyfrannu at economi carbon isel ffyniannus yng Nghymru lle mae pobl yn ennill incwm gweddus o wneud gwaith ystyrlon. **Hoffem weld tystiolaeth eich bod wedi ystyried effaith amgylcheddol gadarnhaol net cynyddu'r cyflenwad o dai (y defnydd o garbon ac ynni; ynni gydol oes / cost faterol adeiladu ac adeiladwaith; yn ogystal â rhyngweithio rhwng adeiladau ac ecosystemau / tirweddau).** |

| Amcan | Asesiad penodol ar gynnydd |
| --- | --- |
| Amcan 1.3: Creu canol trefi llwyddiannus. (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Gallai dull newydd o ymdrin â thai greu llawer o gyfleoedd i Gymru gan gynnwys newid tuag at economi werdd carbon isel a gwaith o ansawdd gwell drwy gefnogi cymunedau mwy bywiog a chydlynol drwy wneud lleoedd yn well gyda mynediad i fannau gwyrdd a gwell integreiddio â gwasanaethau eraill a gwasanaethau/asedau lleol, gyda gostyngiad yn y defnydd o ddeunydd crai a chynhyrchu gwastraff ac amgylcheddau gwydn sydd wedi'u cysylltu'n dda i bawb yng Nghymru. **O'r herwydd byddem yn disgwyl gweld yn adroddiadau'r dyfodol sut mae eich cynnydd tuag at yr amcan hwn yn gefnogol i amcanion eraill, fel amcan 1.1.** |
| Amcan 2.1: Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros ba gymorth a gânt drwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Mae'n galonogol gweld y camau rydych yn eu cymryd o dan yr amcan hwn, bydd y swyddfa'n rhannu llyfryn y meddyg teulu fel adnodd addawol. Fodd bynnag, dim ond mor effeithiol â'i ddefnydd fydd hwn; gan nad oedd ar gael ym Meddygfa Newydd Pencoed, efallai yr hoffech ei hyrwyddo'n gryfach.<br><br>**Roedd yn arbennig o addawol gweld profiadau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cofnodi a'u defnyddio i lywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol, unwaith eto hoffem weld eu lleisiau'n cael eu hadlewyrchu fel astudiaethau achos yn yr adroddiad blynyddol.** Dylech hefyd rannu eich dull o gynnwys pobl i helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.<br><br>Hoffem wybod hefyd sut mae'r gwaith hwn yn cysylltu â'ch amcanion a'ch camau eraill, fel amcan 2.4, a sut mae'n bwydo i mewn ac yn llywio penderfyniadau polisi a chyllideb o ran darpariaethau gwasanaeth yn y gymuned er mwyn cynnal iechyd a lles. |

| Amcan | Asesiad penodol ar gynnydd |
|---|---|
| Amcan 2.2: Lleihau'r galw drwy fuddsoddi mewn rhaglenni cymorth ac ymyriadau cynnar wedi'u targedu (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Rydych wedi adlewyrchu ar y gwerthusiad o'r dull ysgol gyfan o weithredu sy'n seiliedig ar ACE a **hoffem ddeall sut rydych yn graddio modelau o'r fath yn yr adroddiadau eleni.** Rydym yn ymwybodol o'r cydweithio ehangach â phartneriaid BGC ynghylch ACE a **byddem yn eich annog i edrych ar y broblem o safbwynt y system gyfan a cheisio defnyddio'r pum ffordd o weithio i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n atal cydweithio.** Mae hefyd yn galonogol gweld cydweithio drwy JAFF a MASH.<br><br>Mae'r Comisiynydd wedi cytuno'n ddiweddar ar ddiffiniad o wariant ataliol gyda Llywodraeth Cymru a hoffem i Awdurdodau Lleol hefyd fabwysiadu'r diffiniad hwn a'i ddefnyddio i lywio penderfyniadau gwariant a'ch helpu i ddeall y gwahanol bwyntiau ymyrryd. Er ei bod yn gadarnhaol gweld y camau rydych yn eu cymryd i weithio'n ataliol, wrth ystyried y materion hyn, a oes gennych ddealltwriaeth o'r hyn rydych yn ceisio'i atal? Er enghraifft, yn y prosiect 'Drysau Cynnar', rydych yn eithrio pobl ifanc sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor, ond a ellid cymryd camau ataliol cynharach fel addysgu am reoli cyllidebau? Mae arfer da wedi gweld defnyddio cyllidebau wedi'u pwlio rhwng sefydliadau i oresgyn rhwystrau ymhellach a bod adnoddau ar gael ar y lefel gywir ar yr adeg gywir, rhywbeth nad yw o dan reolaeth un sefydliad efallai. Fel rhan o ddiwygio'r meysydd newid corfforaethol, hoffem weld sut mae eich cynllunio ariannol yn symud i'r cyfeiriad hwn yn yr adroddiad eleni. |

| Amcan | Asesiad penodol ar gynnydd |
| --- | --- |
| Amcan 3.3: Gwneud y gorau o'n hasedau ffisegol, gan gynnwys adeiladau ysgolion (Wedi'i leoli fel bod yn fwy anturus) | Rydych yn ystyried y dylanwad y gallwch ei gael dros leihau ôl troed carbon eich adeiladau, ac yn datblygu Cynllun Gwres Caerau. **Yn yr adroddiad eleni, rydym am weld tystiolaeth o sut rydych yn cyflymu’r camau gweithredu i leihau eich allyriadau, gan sicrhau manteision llesiant ehangach.**<br><br>Mae gennych ddyletswydd i wneud y cyfraniad mwyaf posib at bob un o'r nodau llesiant. Ar hyn o bryd, **prin yw'r dystiolaeth o sut rydych wedi ystyried y diffiniad cyfreithiol llawn o 'Gymru gydnerth'.** Rydym yn wynebu dirywiad digynsail ym myd natur; rydym bellach ymhlith y gwledydd sydd wedi gweld y dirywiad mwyaf yn eu byd natur yn y byd, gyda Chymru'n gweld niferoedd 57% o blanhigion gwyllt, 60% o löynnod byw a 40% o adar yn gostwng, ac 1 o bob 14 rhywogaeth yn wynebu bygythiad o ddiflannu o Brydain Fawr. Dylech fod yn ystyried sut gall camau i gyflawni'r amcan hwn gefnogi cadernid ecolegol, gan wneud yr amgylchedd yn iachach i fywyd gwyllt a phobl. Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi'n ddiweddar y 'Siwrnai tuag at Gymru gydnerth', sydd wedi’i fwriadu fel cyngor ac adnodd o astudiaethau achos o sut gall cyrff cyhoeddus geisio gwneud y cyfraniad mwyaf at y nodau. Dylai hyn roi syniad i chi o sut i gyflymu'r newid hwn. **Hoffem weld camau pellach i sicrhau bod eich amcanion yn ystyried y nod hwn yn ddigonol wrth adrodd yn y dyfodol.**<br><br>Hefyd mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r 'Llwybr Carbon Isel i Gymru' yn ddiweddar sy'n gysylltiedig â'n targedau i leihau cyfanswm ein hallyriadau 27% erbyn 2020 a 67% erbyn 2040. **Disgwyliwn weld momentwm pellach yn yr amcan hwn i fapio'r rheolaeth sydd gennych dros yr allyriadau mwyaf; a chael cynllun ar waith i'w lleihau.** Dylai'r meysydd ffocws uniongyrchol gynnwys lleihau carbon drwy gaffael, cerbydau allyriadau hynod isel (fflyd), adeiladau, amddifadu tanwydd ffosil, dadgarboneiddio gwres, trafnidiaeth a thwristiaeth |
| Pob Amcan | Mae'n galonogol gweld y camau rydych yn eu cymryd i gyflawni eich amcanion. Roeddem yn croesawu'r dystiolaeth helaeth a gyflwynwyd, fodd bynnag, **hoffem weld tystiolaeth yn y dyfodol yn adrodd am ymwybyddiaeth o ryngddibyniaethau presennol a chyfleoedd i wneud y mwyaf o'ch cyfraniad tuag at y nodau llesiant,** fel cysylltu sgiliau â datblygiadau yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys dangos eich bod wedi deall a nodi darlun cydlynol ar draws eich sefydliad, sut mae'r sefydliad cyfan yn perfformio a lle mae ardaloedd a allai fanteisio o gael eu datblygu. |

# Diolch i chi & camau nesaf

Diolch am gymryd rhan yn y broses hunan-fyfyrio hon. Byddwn yn cyhoeddi'r casgliadau nes ymlaen yn y flwyddyn.

Rydyn ni'n defnyddio eich adborth o'r deunydd a ddychwelwyd gennych a'r gweithdai cydweithredu rhanbarthol i gyhoeddi offeryn diwygiedig y gallwch ei lawrlwytho a'i ddefnyddio i drwytho eich gwaith.

Cyn hir bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi cyngor ar deithiau i gyflawni'r holl nodau llesiant cenedlaethol a fydd yn eich helpu i adolygu'r amcanion a'r camau a osodwyd gennych.

Byddwn yn darparu cyngor mwy pwrpasol ar symud tuag at eich amcanion llesiant. Bydd hyn yn seiliedig ar y themâu mwyaf cyffredin yn deillio o amcanion ledled Cymru. Byddwn yn gofyn am eich barn ar yr ymagwedd hon wrth iddi ddatblygu.

Paratowyd yr adroddiad hwn gyda chymorth Tîm Adolygu Annibynnol a ddyluniodd ac a ymgymerodd â hunan-fyfyrio ar gynnydd sefydliadau yn erbyn eu hamcanion llesiant yn 2017-18

Diolch i:

Owen Davies    Kathy Graham    Richard Newton    Andrew Rogers    Bruce Whitear